Cael trafferth darllen y cylchlythyr yma? Darllenwch ef yn eich porwr.

Rhifyn 254 (Cymru) - 11 Tachwedd 2019

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cofrestr etholiadol i'w defnyddio ar gyfer enwebiadau

Rydym wedi derbyn nifer o ymholiadau yn ymwneud â pha gofrestr etholiadol y dylid ei defnyddio i reoli'r broses enwebu.

Fel y gwnaethom dynnu sylw ato yn ein nodyn canllaw atodol i gefnogi (A)ROs ac EROs gyda rheolaeth y UKPGE sydd i ddod, i fod yn ddilys, bydd angen cynnwys tanysgrifwyr ar y gofrestr sydd mewn grym ar y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, sef 11 Tachwedd.

Os ydych eisoes wedi cyhoeddi eich cofrestr ddiwygiedig erbyn y pwynt hwnnw, hon fydd y gofrestr sydd mewn grym. Os na, hwn fydd eich rhybudd newid diwethaf a gyhoeddwyd, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau newid misol ychwanegol a gyhoeddir ym mis Hydref a/neu fis Tachwedd.

Dylech sicrhau bod ymgeiswyr a'u hasiantau yn ymwybodol o ba gofrestr i'w defnyddio wrth gwblhau eu papurau enwebu

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cyflymu pecynnau pleidleisio post i dramor a chyfeiriadau BFPO

Yn absenoldeb unrhyw newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli pleidleisiau post tramor, rydym yn cydnabod yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu wrth sicrhau bod pleidleiswyr tramor sy'n dewis pleidleisio trwy'r post yn derbyn eu pleidlais bost mewn pryd i'w chwblhau a'i dychwelyd cyn y cau yr etholiad.

Fodd bynnag, fel y gwyddoch, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r mater hysbys hwn ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU, mae Swyddfa'r Cabinet wedi darparu gwybodaeth am gyfleuster y mae'r Post Brenhinol a Swyddfa Bost Lluoedd Prydain (BFPO) yn ei ddarparu i helpu i hwyluso'r broses o anfon pecynnau pleidleisio post i gyfeiriadau tramor a chyfeiriadau BFPO.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cofrestr etholiadol i'w defnyddio ar gyfer enwebiadau

Nodyn atgoffa pa gofrestr etholiadol y dylid ei defnyddio ar gyfer y broses enwebu.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cyflymu pecynnau pleidleisio post i dramor a chyfeiriadau BFPO

Gwybodaeth gan Swyddfa'r Cabinet am wasanaethau sydd ar gael i gyflymu pecynnau pleidleisio post i gyfeiriadau tramor a BFPO.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU: diweddariad ar enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau

Gwybodaeth ar enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau o ran etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cyngor seiberddiogelwch

Gwybodaeth a dolenni am gyngor seiberddiogelwch.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: diweddariad ymwybyddiaeth y cyhoedd - adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr

Er mwyn eich cefnogi chi i sicrhau eich bod yn gallu defnyddio'r gwasanaeth, gwelwch isod nodyn atgoffa o'r broses i'w dilyn, ynghyd â gwybodaeth gyswllt os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Pecynnau pleidleisio post i gyfeiriadau tramor trwy'r Post Brenhinol
Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cynghori y dylai Swyddogion Cofrestru weithio gyda'u cyflenwyr print i sicrhau bod pecynnau pleidleisio tramor safonol ar gyfer pob etholaeth seneddol unigol (nid y rhai i'w hanfon trwy BFPO) yn cael eu gwahanu oddi wrth y pecynnau pleidleisio post arferol a'u hanfon trwy Wasanaeth Ddosbarthu Arbennig 9am y Post Brenhinol:

Paul Head
RMI HWDC
Hurricane Way
Langley
SLOUGH
SL3 8AQ

Dylai pecynnau pleidleisio gael eu bwndelu yn ôl etholaeth ac yn nhrefn y wlad lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r holl fwndeli gynnwys taflen bennawd sy'n manylu ar y wybodaeth ganlynol: Dyddiad anfon

- Awdurdod Lleol
- Etholaeth seneddol
- Cyfaint yr eitemau

Am ymholiadau ar gyfer y Post Brenhinol sydd yn ymwneud â'r broses hon, cysylltwch â:

Cefnogaeth Etholiad: 03456 076 416
election.support@royalmail.com
Pleidleisio Post: 03456 564 998 postal.voting@royalmail.com

Pecynnau pleidleisio post trwy Swyddfa Bost Lluoedd Prydain
Fel uchod, dylai Swyddogion Canlyniadau weithio gyda'u cyflenwyr print i wahanu pecynnau pleidleisio post i'w hanfon trwy Swyddfa Bost Lluoedd Prydain (BFPO) oddi wrth weddill yr anfoniad a'u hanfon trwy Wasanaeth Ddosbarthu Arbennig y Post Brenhinol i:

Postal voting
BFPO London
West End Road
Ruislip
HA4 6DQ

Os oes unrhyw ymholiadau neu faterion yn ymwneud â'r gwasanaeth hwn gallwch gysylltu â:
Bernie Hunter: Bernie.Hunter957@mod.gov.uk (gan gopïo Ian.Mckinney560@mod.gov.uk)

Ffôn: 020 8589 3460 neu 020 8589 3468

Trosolwg o a dolenni i adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cyngor y tu allan i oriau gwaith yn ystod cyfnod yr etholiad

Gwybodaeth ar sut allwch chi gysyltu â ni i gael cyngor yn ystod cyfnod yr etholiad.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletin*.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau staff yn eich tim. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd yn cael eu penodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.comisiwnetholiadol.org.uk/privacy-notice)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr yma mwyach,

Etholiad cyffredinol Senedd y DU: diweddariad ar enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau

gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.

Fel y nodwyd ym Mwletin 253, mae diweddariadau yn dal i gael eu gwneud i gofrestr ar-lein y pleidiau gwleidyddol. Er nad ydym yn bwriadu gwneud diweddariadau pellach i'r gofrestr ar ôl 12 Tachwedd 2019, mae potensial y gallai fod angen i ni wneud hynny, a byddwn yn tynnu sylw mewn Bwletin yn y dyfodol at unrhyw newidiadau ychwanegol a wneir ar ôl y pwynt hwn.

Ers Bwletin 253, rydym wedi gwneud diweddariadau i'r pleidiau canlynol ar y gofrestr:

- Y Grŵp Annibynnol ar gyfer Newid

Gellwch weld manylion llawn pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn ein rhestr o benderfyniadau cymeradwyo neu wrthod enwau, disgrifadau ac arwyddluniau. Ar ein gwefan mae rhestr o geisiadau yr ydym wrthi'n eu ystyried.

Yn ogytsal, mae'r pleidiau canlynol wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr:

- I.P.P. Invictus Popular Party
- Merthyr Independents
- Our Nation
- Representative Democracy Party
- The British Empire Party
- The Eccentric Party of Great Britain
- The New Society of Worth
- Time Party
- TLC - The Local Community - Shepton Mallet
- UK Workers Equality & Fairtrade Party
- Viva Europa

Wrth dderbyn enwebiadau, mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) wirio bod enw'r blaid neu unrhyw ddisgrifiad a roddir ar ffurflen enwebu, yn ogystal a'r arwyddlun y gofynnir amdano, wedi cofrestru ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol, a bod y manylion a ddarperir yn cydweddu â'r cofrestriad. I sicrhau eich bod yn gweld y wybodaeth ddiweddaraf, efallai bydd angen i chi ddileu eich hanes pori neu adnewyddu'r dudalen. Os nad ydych yn siwr sut i wneud hyn, dylai eich tîm TG fod yn gallu eich helpu.

Ffeil zip arwyddluniau
Mae ffeil Zip o ddelweddau arwyddluniau ar gael ar ein gwefan a chafodd ei diweddaru ar 7 Tachwedd. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw ffeiliau Zip a lawrlwythwyd cyn y dyddiad yma o gwbl.

Er bod y ffeil Zip ac allforio disgrifiadau yn declyn y gellir ei ddefnyddio gan eich argraffwyr i baratoi papurau pleidleisio, y wybodaeth ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol dylid ei ddefnyddio i gadarnhau pa arwyddlun a disgrifiadau i'w argraffu ar bapurau pleidleisio. **Dylech sicrhau felly eich bod chi a'ch argraffwyr yn lawrlwytho a defnyddio'r ffeil Zip wedi i enwebiadau gau.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynnau ynghylch y gofrestru, croeso i chi gysylltu â ni.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cyngor seiberddiogelwch

Fel y gwnaethant cyn UKPGE 2017, mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) unwaith eto wedi cyhoeddi canllawiau i gefnogi gweinyddwyr, pleidiau gwleidyddol a'r rhai sydd am gymryd rhan yn y broses etholiadol sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am arferion seiberddiogelwch da ar gyfer y systemau sy'n cefnogi'r gwaith yn ymwneud ag etholiadau'r DU.

- Canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau
- Canllawiau i unigolion
- Canllawiau i bleidiau gwleidyddol

Lle bo modd, rhannwch y canllawiau ar gyfer unigolion gydag ymgeiswyr ac asiantau yn eich ardal chi

Yn ogystal â'r pwyntiau sydd yn y canllawiau i Swyddogion Canlyniadau, mae nifer o gamau ymarferol y gallech eu cymryd fydd yn eich helpu i liniaru'r risgiau i'r broses.

- Dylech wneud copïau wrth gefn (yn ddyddiol o leiaf) o gronfeydd data cofrestrau i sicrhau bod gyda chi gopi electronig diogel hygyrch o'r cofrestrau y bydd eu hangen arnoch ar gyfer yr etholiad.
- Dylech gynhyrchu copïau caled o'r cofrestrau gorsafoedd pleidleisio cyn gynted â phosibl, a sicrhau eu bod yn cael eu gwirio ar gyfer cywirdeb cyn eu defnyddio ar y diwrnod pleidleisio.

Mae'r NCSC hefyd wedi darparu canllawiau penodol i bleidiau gwleidyddol ar risgiau 'phishing', ond mae'r canllawiau hyn yr un mor ddefnyddiol i Swyddogion Canlyniadau.

Gellir cael mwy o ganllawiau ar ddiogelwch TG o www.getsafeonline.org

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: diweddariad ymwybyddiaeth y cyhoedd - adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr

Ymhellach i Bwletin 253, mae adnoddau cofrestru pleidleiswyr bellach ar gael ar ein gwefan. Rhannwch rhain gyda'ch tîm cyfatherbu er mwyn iddyn nhw eu rhannu gyda sianeli lleol.

Pan fydd ein hymgyrch yn lansio byddwn yn defnyddio teledu a fideo ar-lein i gyrraedd cynulleidfaoedd torfol, gyda chefnogaeth hysbysebu cyfryngau cymdeithasol i dargedu grwpiau tan-gofrestredig penodol. Byddwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar ein gwefan, lle rydym yn y broses o ddiweddaru ein hen gynnwys 'Your Vote Matters'/'Fy Mhleidlais i' i'w gwneud mor glir â phosibl i bleidleiswyr. Byddwn hefyd yn rhannu'r cynnwys hwn trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac yn bwriadu hybu cyrhaedd ein hymgyrch trwy gyfrwng cysylltiadau cyhoeddus a phartneriaid.

Byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth i chi am yr ymgyrch trwy'r Bwletin, yn ogystal â thrwy Roll Call. Os nad ydych wedi tanysgrifio i Roll Call, gallwch wneud yma.

Cyrraedd dinasyddion Prydain dramor
Mae ein hymgyrch i annog dinasyddion y DU sy'n byw dramor i gofrestru i bleidleisio bellach wedi lansio.

Rydym wedi creu anodddau i chi eu rhannu i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl sy'n byw tramor. Mae'r rhain yn cynnwys delweddau ar gyfer Facebook, Twitter ac Instagram, ynghyd â negeseuon cyfryngau cymdeithasol a awgrymir a templed ar gyfer blog.

Mae ein negeseuon yn cyfarwyddo pobl i gov.uk/register i bleidleisio. Mae'r wefan gofrestru yn eu cynghori ynghylch pleidleisio trwy ddirprwy (gan gynnwys dirprwy bost) a phleidleisio trwy'r post.

Dy bleidlais di a neb arall
Helpwch atal twyll etholiadol trwy rannu ein hadnoddau 'Eich pleidlais chi yn unig'.

Mae'r ymgyrch, yr ydym yn ei chyflawni mewn partneriaeth â'r elusen Crimestoppers, yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gyfystyr â thwyll etholiadol.

Ei nod yw grymuso pobl i amddiffyn eu pleidlais, ac i adrodd unrhyw bryderon i Crimestoppers yn ddienw. Mae adnoddau dwyieithog ar gael sy'n cynnwys fideos, posteri ar-lein ac all-lein, a phostiadau cyfryngau cymdeithasol a graffeg.

Helpu etholwyr i ddeall y broses gofrestru

Byddwn yn diweddaru'r wybodaeth sydd ar gael yn adran pleidleiswyr ein gwefan i geisio mynd i'r afael ag unrhyw ddryswch a allai ddeillio o'r broses gofrestru dau gam, yn enwedig y potensial i unigolion sydd wedi ychwanegu eu henw at HEF yn ystod y canfasio feddwl maent eisoes wedi'u cofrestru heb gwblhau cais cofrestru.

Dylech hefyd ystyried sut mae'r negeseuon rydych chi'n eu cynnwys gydag ITRs yn egluro'r angen i gwblhau cais ar wahân fel rhan o'r broses gofrestru, hyd yn oed lle maen nhw wedi ymateb i HEF yn ddiweddar, yn ogystal â thynnu sylw at y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru a phleidleisio absennol.

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: cyngor y tu allan i oriau gwaith yn ystod cyfnod yr etholiad

Rydym am barhau i ddarparu gwasanaeth cyngor tu allan i oriau swyddfa i ddelio gydag ymholiadau gweinyddol etholiadol brys yn y cyfnod cyn ac yn syth ar ôl etholiad cyffredinol Senedd y DU Rhagfyr 2019, ac felly mae'n bwysig eich atgoffa chi ar sut gallwch gysylltu â ni.

Cysylltu â ni yn ystod oriau swyddfa arferol

Byddwn ar gael rhwng 08:30 a 17:30 trwy gydol cyfnod yr etholiad i'ch cefnogi fel arfer.

Os ydych yn cysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa arferol, defnyddiwch ein **Llinell Cyngor a Chanllaw: 0333 103 1929**

Neu gallwch ein e-bostio: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Cysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa arferol
Mae ein gwasanaeth cynghori y tu allan i oriau bellach ar gael ac mae'n cynnwys penwythnosau trwy gydol cyfnod yr etholiad.

Yn ogystal bydd cymorth 24 awr ar gael ar y diwrnod pleidleisio, a dros y penwythnos ddydd Sadwrn 14 Rhagfyr a dydd Sul 15 Rhagfyr.

Gellir cysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa arferol drwy ffonio: **07824 464 350**.

.....

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Ty'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2019